

CYFARFOD:	<b>BWRDD PENSIWN</b>
DYDDIAD:	<b>6 Mawrth 2023</b>
TEITL:	<b>ADOLYGU AMCANION STRATEGOL AR GYFER YMGYNGHORWYR BUDDSODDI'R GRONFA</b>
PWRPAS:	<b>Adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion cyfredol a nodi amcanion y dyfodol</b>
ARGYMHELLIAD:	<b>NODI CYNNYDD AC AMCANION Y DYFODOL</b>
AWDURON:	<b>Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi Dafydd Edwards, Cyfarwyddwr y Gronfa</b>

## 1. CYFLWYNIAD

Ar ddiwedd 2018, yn dilyn adolygiad o'r marchnadoedd ymgynghori buddsoddi a rheoli ymddiriedol, nododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ("CMA") y dylai Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w ymgynghorwyr buddsoddi. Mae'r amcanion yma yn cael ei gosod a diweddarau pob blwyddyn.

## 2. GOSOD AMCANION I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Mae'r CMA yn nodi y dylai amcanion ar gyfer ymgynghorwyr gynnwys diffiniad clir o'r canlyniad a ddisgwylir, a dylent:

- fod wedi'u cysylltu yn agos gydag amcanion strategol y gronfa bensiwn
- cael eu hadolygu o leiaf pob tair blynedd, ac ar ôl pob newid sylweddol i'r strategaeth fuddsoddi neu amcanion

Mae sefydlu amcanion tymor hir yn rhan o drefniadau llywodraethu da. Mae'r estyniad o osod amcanion i ymgynghorwyr buddsoddi yn gallu cael ei ystyried fel dilyniant naturiol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn anelu tuag at yr un nod.

## 3. AMCANION CRONFA BENSIWN GWYNEDD I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Mae amcanion Cronfa Bensiwn Gwynedd yn Atodiad 1, gydag adroddiad cynnydd yn erbyn yr amcanion yn ystod 2022.

Mae'r datganiad cydymffurfio wedi ei arwyddo gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau erbyn y dyddiad cau gofynnol o 7fed o Ionawr 2023.

## 4. AMCANION Y DYFODOL

Bydd y deg amcan cyfredol yn parhau am y cyfnod nesaf, gyda dau amcan newydd ychwanegol (11 a 12 yn Atodiad 1) sydd wedi ei cymeradwyo gan y Pwyllgor.

## 5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth.